



Aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau

Cyflwyniad

Diolch i chi am ddatgan diddordeb yng ngwaith Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae ein Pwyllgor Safonau yn darparu mewnbwn annibynnol gwerthfawr i'r gweithdrefnau a'r protocolau sy'n rhaid i gynghorwyr eu dilyn, ac mae recriwtio pobl sydd â'r sgiliau a'r agwedd iawn yn hollbwysig i'w llwyddiant.

Wedi i chi ddarllen y pecyn ymgeisio, rydym yn gobeithio y byddwch yn dewis ymgeisio am y swydd ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn chwilio am un person lleyg i wasanaethu fel aelodau annibynnol ar ei Bwyllgor Safonau.

Ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn fantais, a bydd hefyd angen ystyried sicrhau cydbwysedd o sgiliau, rhinweddau ac arbenigedd ar y Pwyllgor, yn ogystal â'r angen i gynrychioli'r gymuned gyfan a chael cynrychiolaeth o'r holl ardal.

Y Pwyllgor Safonau

Mae gan y Pwyllgor Safonau rôl ganolog i'w chwarae o fewn y fframwaith moesol sy'n llywodraethu ymddygiad aelodau awdurdod lleol. Mae pob aelod o awdurdod lleol ac o bob cyngor tref a chymuned wedi ymrwymo i gadw at y Cod Ymddygiad i Aelodau. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chadw safonau uchel o ymddygiad gan y cynghorwyr hyn a'u cynorthwyo i gadw at God Ymddygiad yr Aelodau.

Mae gan y Pwyllgor rhai swyddogaethau penodol sy'n cynnwys ystyried cwynion am aelodau sydd wedi mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad ac i'w cosbi ble bo'n briodol. Mae hefyd yn ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau i gael caniatâd i gymryd rhan mewn trafodaethau er fod ganddynt fuddiannau sy'n rhagfarnu o dan y Cod. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gadw golwg ar y Protocol Anrhegion a Lletygarwch i Aelodau.

Mae'r Pwyllgor Safonau yn tueddu i gyfarfod oddeutu dwywaith y flwyddyn ar ddyddiad ac amser a bennir gyda aelodau'r pwyllgor, heblaw bod mater brys i'w drafod.

Telir aelodau annibynnol yn unol â'r cyfraddau a osodir gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

Yr Aelodau Annibynnol

Bydd angen i ymgeiswyr ddangos annibyniaeth ac amhleidiaeth wrth gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau i hyrwyddo, cadw a gwella trefniadau moesol o fewn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae gwaith y Pwyllgor yn golygu bod angen i aelodau annibynnol feddu ar y rhinweddau a'r sgiliau canlynol:-

- sgiliau gwranddo
- y gallu i ddeall a dadansoddi tystiolaeth
- y gallu i ddod i farn wrthrychol ac egluro'r farn honno gan gyfeirio at y dystiolaeth
- sgiliau gweithio mewn tîm
- parch at eraill a dealltwriaeth o faterion amrywiaeth
- disgresiwn/pwyll
- gonestrwydd personol
- ddim yn cymryd rhan weithredol mewn gwleidyddiaeth lleol na chenedlaethol
- ddim wedi cael anghydfod arwyddocaol yn y gorffennol gyda'r Awdurdod
- ddim bod mewn perthynas agos gyda'r un aelod/swyddog o'r Awdurdod.

Nid yw gwybodaeth fanwl am lywodraeth leol yn angenrheidiol er y byddai'n fanteisiol petai gan ddarparu ymgeiswyr ddiddordeb mewn materion yn ymwneud â bywyd a gwasanaethau cyhoeddus.

Hefyd, rhaid i aelodau annibynnol:-

- fod yn gymwys i gael eu dethol fel aelod annibynnol (gweler yr adran 'Bod yn gymwys i gael eich dethol');
- bod yn uchel eu parch yn y gymuned;
- bod yn gallu rhoi'r ymrwymiad amser sydd ei angen a bod ar gael ar fyr-rybudd;
- bod yn gallu darparu dau eirda;
- yn 18 oed a hŷn.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus ddechrau ar eu penodiadau ar unwaith a gwasanaethu, yn amodol ar ddiswyddiad neu ymddiswyddiad, am gyfnod rhwng 4 a 6 mlynedd. Mae'n bosibl ailbenodi am gyfnod arall rhwng 4 a 6 mlynedd.

Bod yn gymwys i gael eich dethol

Ni all unigolyn fod yn annibynnol os yw'n:

- gynghorydd neu'n swyddog (neu'n briod â chynghorydd neu swyddog) mewn unrhyw gyngor sir/bwrdeistref sirol, awdurdod tân, awdurdod parc cenedlaethol, neu gyngor cymuned/tref
- cyn-gynghorydd neu gyn-swyddog o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Nodwch y gall cyn-gynghorwyr neu gyn-swyddogion cyngorau sir/bwrdeistref sirol, awdurdodau tân neu barciau cenedlaethol eraill fod yn aelodau annibynnol cyn belled bod yna gyfnod clir o 12 mis wedi mynd heibio ers iddynt beidio â bod yn gynghorydd neu swyddog o awdurdod o'r fath.

Manteision bod yn Aelod Annibynnol

Mae llawer o resymau pam fod pobl yn dewis gwneud eu rhan fel hyn

- er mwyn ehangu eu gwybodaeth a'u profiad
- er mwyn helaethu a datblygu eu CV er mwyn symud ymlaen yn eu gyrfa
- rhoi rhywbeth yn ôl, gan rannu eu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad
- cyfle i weithio gyda phobl newydd a chael profiad o ddulliau trefniadaethol gwahanol
- cyfle i rwydweithio â grŵp ehangach o bobl sydd â'r posibilrwydd o wella gwahanol rannau o'u bywyd a/neu waith
- fel man cychwyn i ymwneud â phwyllgorau / cyrff adolygu annibynnol eraill.

Beth bynnag yw'r rheswm dros ystyried bod yn Aelod Annibynnol, byddem ni'n hoffi clywed gennych yn fawr.

Y broses dewis a phenodi

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gyflogwr Cyfle Cyfartal, ac wedi ymrwymo i sicrhau bod pob proses recriwtio yn rhydd o unrhyw fath o gamwahaniaethu. Pan fo'n briodol, gellir cymryd camau gweithredu cadarnhaol er mwyn anelu'r broses recriwtio at grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Bydd unrhyw gamau o'r fath yn cael eu monitro'n ofalus er mwyn asesu eu heffaith.

Rhaid i'r ceisiadau gael eu cyflwyno ar y ffurflen gais briodol, gyda 2 eirida.